amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Luc 4: 38-44

Mae'r stori yma'n sôn am:
Nerth Iesu

Stori 1 Pobl y cwrddodd Iesu â nhw – Gwraig sâl.

Roedd Iesu a rhai o'i ddisgyblion wedi mynd i gartref Simon Pedr i gael bwyd. Ond roedd problem. Roedd mam yng nghyfraith Simon Pedr yn sâl yn y gwely. Roedd ei gwres yn uchel. Roedd salwch fel ffliw gwael arni. Gofynnon nhw i Iesu ei gwneud hi'n well.

Pwy aeth i dŷ Simon Pedr? I __ __ __

Beth oedd yn bod ar fam yng nghyfraith Simon Pedr?

Rhowch linell o dan yr ateb cywir.

Y frech goch Gwres uchel Brech yr ieir

Gwnaeth Iesu hi'n well ar unwaith! Yna, cododd hi a mynd i wneud bwyd iddyn nhw. Dyma wyrth arall!

Mae Iesu'n Fab Duw ac felly mae'n gallu gwneud pobl yn well.

Y noson honno, daeth llawer o bobl i'r tŷ er mwyn i Iesu eu gwella nhw.



Lliwiwch y geiriau.

Gwnaeth Iesu'r bobl yn well.

Mae Iesu'n gallu newid bywydau pobl os ydyn nhw'n gofyn iddo.

Enw

DARLLENWCH
Luc 5: 12-16

Mae'r stori yma'n sôn am:
Iesu'n ein caru ni!

Stori 2 Pobl y cwrddodd Iesu â nhw – Dyn sâl.



Pan fydd plant yn cael y frech goch neu frech yr ieir, dydyn nhw ddim yn cael mynd i'r ysgol rhag ofn i rywun arall ei ddal. Yn amser Iesu, roedd rhai pobl yn cael salwch o'r enw'r gwahanglwyf ar eu croen. Roedd hi'n hawdd dal hwnnw wrth bobl eraill.

Os oedd y gwahanglwyf arnoch, doeddech chi ddim yn cael byw gyda'ch teulu na mynd i weithio.

Un diwrnod, cwrddodd Iesu â dyn oedd yn dioddef o'r gwahanglwyf. Gofynnodd y dyn i Iesu ei wella. Edrychodd Iesu ar y dyn. Roedd arno eisiau ei helpu. Roedd Iesu'n caru pawb.

Yna, gwnaeth Iesu rhywbeth ardderchog. Cyffyrddodd e â'r dyn! Wnaeth e ddim mynd yn sâl ond fe wnaeth e'r dyn yn well. Roedd y dyn wrth ei fodd! Roedd Iesu wedi newid ei fywyd. Roedd yn iach eto.

Rhowch y geiriau hyn yn y llefydd iawn.

sâl **well** **gyffwrdd**

Gwelodd Iesu ddyn _ _ _.

Gofynnodd y dyn i Iesu ei wneud yn _ _ __.

Ar ôl i Iesu _ _ __ _ _ __ ag e, roedd y dyn yn well.



Roedd Iesu'n caru'r dyn. Mae Iesu'n ein caru ni hefyd. Ydych chi'n caru Iesu?

Dangosodd Iesu ei fod yn ein caru ni trwy farw ar y groes droson ni!

Enw

DARLLENWCH
Luc 5: 17-26

Mae'r stori yma'n sôn am:
Iesu'n maddau

Stori 3 Pobl y cwrddodd Iesu â nhw – Dyn yn methu symud.



Daeth pobl o bell ac agos i wrando ar Iesu. Roedd e'n siarad â phobl mewn tŷ. Roedd y tŷ yn llawn. Roedd pedwar dyn eisiau dod â'u ffrind oedd yn methu symud ac yn gorwedd ar wely i mewn i'r tŷ.

Doedd dim lle, felly dyma nhw'n ei gario i ben y to fflat. Fe wnaethon nhw dwll yn y to a gollwng y dyn i lawr trwy'r twll at Iesu. Roedd Iesu'n falch o weld eu bod nhw'n credu y byddai'n gallu gwella'r dyn. Roedd e'n gwybod bod y dyn sâl wedi gwneud pethau drwg weithiau felly dywedodd e "Mae dy bechodau wedi eu maddau, ffrind."

Rhowch gylch o gwmpas yr atebion cywir i'r cwestiynau isod. Faint o ffrindiau oedd gan y dyn sâl?

3 10 4

Sut aeth y dyn sâl i mewn i'r tŷ?

trwy'r drws trwy'r ffenest trwy'r to

Doedd y bobl yn y tŷ ddim yn credu bod Iesu'n gallu maddau pechodau. Er mwyn profi ei fod yn gallu gwneud hynny, dywedodd Iesu wrth y dyn oedd yn methu symud am sefyll ar ei draed. Roedd pawb yn synnu pan gododd ar ei draed ac aeth adref gan foli Duw.

Lliwiwch y geiriau.

Maddeuodd Iesu bechodau'r dyn sâl.

Mae Iesu'n gallu maddau'n pechodau ni hefyd. Mae arno eisiau i ni ddweud Sori am wneud pethau drwg a diolch iddo am farw ar y groes droson ni.

Enw

DARLLENWCH
Luc 5: 27-32

Mae'r stori yma'n sôn am:
Dilyn Iesu

Stori 4 Pobl y cwrddodd Iesu â nhw – Mathew

Roedd Lefi, a oedd hefyd yn cael ei alw'n Mathew, yn ddyn prysur iawn. Roedd yn casglu trethi gan bobl y dref. Doedd neb yn ei hoffi am ei fod yn gweithio i'r Rhufeiniaid. Efallai ei fod yn cymryd gormod o arian wrth bobl weithiau.

Un diwrnod, daeth Iesu i'r dref. Dywedodd wrth Mathew "Dilyn fi!"

Cododd Mathew ar unwaith, gadael ei waith a dilyn Iesu.

Pwy ddilynodd Iesu?

M __ ___ __ __ .

Beth ddywedodd Iesu wrtho?

D __ __ __ __

F __ .

Cafodd Iesu a'i ddisgyblion fynd i gartref Mathew am barti gyda ffrindiau Mathew i gyd.

Roedd ar Mathew eisiau dweud wrth bawb y byddai'n wahanol o hyn ymlaen gan ei fod wedi penderfynu dilyn Iesu. Ydych chi'n dilyn Iesu?

Y peth cyntaf yw dweud wrth Iesu eich bod am fod yn ffrind iddo.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120